Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Carreg Hirfaen

**Cwmann**
**Llanbedr Pont Steffan**
**SA48 8EP**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Carreg Hirfaen

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Carreg Hirfaen |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ddim yn ysgol enwadol |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 164 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 157 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yn berthnasol) | 26 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 9.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 48% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/05/2000 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 27/01/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolydiad | 02/05/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae’r term ‘anghenion addysgol arbennig’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae’r pennaeth yn brofiadol ac yn arwain yr ysgol yn gadarn ac effeithiol. Yr hyn sy’n bwysig iddo yw bod yr ysgol yn darparu addysg dda i’r disgyblion mewn amgylchedd cyfoes, cyfeillgar a gofalgar. Mae’n gwireddu hyn yn llwyddiannus, ac o ganlyniad, mae’r ysgol yn gymuned ddiogel a hynod ofalgar, lle mae staff a disgyblion yn parchu ei gilydd ac yn rhoi blaenoriaeth gref i les ei gilydd.

Yn ogystal â chanolbwyntio ar les cyffredinol y disgyblion, mae’r ysgol yn rhoi ffocws penodol ar eu hanghenion emosiynol a’u hiechyd meddwl. Un dechneg effeithiol a defnyddir yn ddyddiol gan y disgyblion er mwyn rhannu eu teimladau a phryderon yw’r gofrestr lles ar-lein. Drwy hyn, mae’r athrawon yn ymateb i bryderon unrhyw ddisgybl mewn ffordd sensitif ar ddechrau’r diwrnod ysgol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda; maent yn foesgar a chwrtais ac yn ofalgar iawn o’i gilydd. Mae llawer yn gwneud defnydd da o’r ystod eang o gyfleoedd a gânt i ddatblygu eu medrau arwain a dylanwadu ar waith yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Fodd bynnag, mae lleiafrif yn tueddu i droi gormod i siarad Saesneg ar adegau ac nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i ddefnyddio’u medrau rhifedd mewn pynciau heblaw mathemateg. Mae medrau creadigol y rhan fwyaf yn datblygu’n dda iawn.

Mae’r athrawon a’r staff ategol yn adnabod anghenion y disgyblion yn dda iawn ac yn cydweithio’n effeithiol i gynllunio profiadau dysgu sy’n eang a diddorol iddynt. Maent yn defnyddio’r adeilad ac ardaloedd allanol yr ysgol yn effeithlon i greu amgylchedd dysgu ysgogol i’r disgyblion. Un nodwedd gref iawn o’r ddarpariaeth yw’r cyfleoedd estynedig a ddarperir i bob disgybl ymgymryd â gweithgareddau awyr agored gwerthfawr. Mae’r profiadau cyfoethog hyn wedi dylanwadu’n gadarnhaol ar les y disgyblion a’u hymwybyddiaeth o bwysigrwydd bod yn yr awyr agored am gyfnodau estynedig.

Mae athrawon yn asesu’r disgyblion yn barhaus ac yn defnyddio’r wybodaeth yn effeithiol i gynllunio’r camau nesaf iddynt. Mae hyn yn arbennig o effeithiol yn nosbarthiadau’r dysgu sylfaen. Mae pob un o’r athrawon yn darparu adborth gwerthfawr ar lafar i gynorthwyo’r disgyblion i wella’u gwaith. Mewn llawer o ddosbarthiadau, lle mae hynny’n briodol, mae athrawon hefyd yn darparu adborth ysgrifenedig effeithiol iddynt. Fodd bynnag, nid yw’r arfer hon bob amser yn gyson effeithiol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgyblion yn siarad Cymraeg yn gyson mewn sesiynau dysgu ac ar adegau eraill, o ystyried eu hoed a’u gallu

A2 Rhannu arfer dda ar draws yr ysgol mewn perthynas â’r dulliau effeithiol sy’n bodoli lle mae athrawon yn ymateb i waith disgyblion

A3 Cynllunio ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso’u medrau rhifedd mewn amrywiol feysydd a chyd-destunau diddorol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â sut mae’n darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd ag ystod o weithgareddau yn yr awyr agored er mwyn hyrwyddo arferion ffordd iach o fyw, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a’r rheini sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn.

Mae’r rhan fwyaf yn gwrando’n arbennig o astud ar ei gilydd ac ar oedolion. Ar draws yr ysgol, mae medrau llafar y disgyblion yn datblygu’n gadarn. Yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen sef y meithrin, derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2, maent yn dechrau datblygu geirfa syml yn gyflym. Erbyn diwedd y cyfnod hwn, mae’r rhan fwyaf yn defnyddio geirfa eang yn briodol i sgwrsio am eu gwaith a'u profiadau gan ddefnyddio tafodiaith leol yn naturiol. Mae medrau llafar rhan fwyaf o’r disgyblion hŷn yn adeiladu’n llwyddiannus ar eu medrau llafar cynnar yn y ddwy iaith. Mae’r rhan fwyaf yn siarad Cymraeg yn gynyddol hyderus ac yn defnyddio geirfa bwrpasol, er enghraifft wrth drafod hanes ac amodau byw Susan Rees o Ferthyr yn y pyllau glo. Ar frig yr ysgol, mae’r rhan fwyaf yn trafod eu gwaith yn ddeallus ac aeddfed yn y Gymraeg a’r Saesneg, gan ddefnyddio geirfa gyfoethog i leisio safbwyntiau gwahanol am hela anifeiliaid. Er hyn, mae lleiafrif o’r disgyblion yn tueddu troi gormod i’r Saesneg yn ystod sesiynau ffurfiol ac ar adegau eraill.

Mae medrau darllen llawer yn datblygu’n dda. Mae’r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod briodol o strategaethau defnyddiol i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio’u medrau darllen yn hyderus gan egluro’r cynnwys yn gywir. Mae llawer o’r disgyblion hŷn yn darllen yn ddeallus mewn cyd-destunau amrywiol yn y ddwy iaith. Maent yn amrywio goslef eu llais ac yn defnyddio atalnodi’n fwriadus i arddangos eu dealltwriaeth. Maent yn darllen yn bwrpasol i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau. Er enghraifft, maent yn ymchwilio i hanes Tryweryn fel rhan o’r gwaith thema, ac yn esbonio’n glir fod y digwyddiad yn enghraifft bwysig o annhegwch, anghyfiawnder a diffyg parch at hawliau dynol bryd hynny.

Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf yn datblygu'n gadarn. Yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn, mae'r rhan fwyaf yn dangos brwdfrydedd tuag at ysgrifennu wrth arbrofi â gwneud marciau ar lawr yr iard gan ddefnyddio poteli dŵr. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn ysgrifennu mewn ystod briodol o gyd-destunau gan gynnwys ffurfiau creadigol. Er enghraifft, maent yn defnyddio ansoddeiriau a chymariaethau syml i ddisgrifio arwyddion y gaeaf ar safle'r ysgol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus ac yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu cyfarwydd, paragraffu ac atalnodi er mwyn ysgrifennu araith o berswâd am anifeiliaid yn y syrcas, er enghraifft. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blynyddoedd 3 i 6 yn ysgrifennu'n gynyddol hyderus yn Saesneg gan ddefnyddio cystrawen ac arddull gywir. Er enghraifft, maent yn defnyddio delweddau hanesyddol yn gelfydd fel symbyliad i ysgrifennu'n greadigol, fel hanes y Mimosa.

Mae medrau mathemategol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Maent yn cyfrifo'n hyderus ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu ac yn cymhwyso'u dealltwriaeth mewn amrywiol gyd-destunau mathemategol fel amser, arian, siâp a mesur.

Yn nosbarthiadau'r cyfnod dysgu sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn cyfrif gwrthrychau'n hyderus yn yr ardaloedd chwarae, fel nifer y cychod bach sy'n arnofio yn y twba dŵr. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn trefnu rhifau'n gywir, yn dechrau deall gwerth lle a bondiau rhif ac yn datrys problemau mathemategol syml yn gywir. Erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, dealla'r rhan fwyaf y gellir cyfrifo gan ddefnyddio amrywiol ddulliau, yn dibynnu ar y sefyllfa, er enghraifft i gyfrifo pris beic sy'n cael ei werthu am bris gostyngol. Maent yn deall sut i dalgrynnu'n gyntaf, ac addasu eu hateb yn gywir er mwyn dod o hyd i'r pris terfynol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau mathemategol yn hyderus mewn heriau penodol yn wythnosol. Maent hefyd, ar adegau llai rheolaidd, yn eu defnyddio mewn ychydig o feysydd eraill y cwricwlwm, fel mewn ymchwiliadau gwyddonol. Er hyn, cyfyng yw'r cyfleoedd a gânt i'w cymhwyso'n ddigonol ar draws y cwricwlwm mewn sefyllfaoedd go iawn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau digidol yn hyderus ar draws gwahanol feysydd y cwricwlwm. Yn nosbarthiadau'r cyfnod dysgu sylfaen, maent yn datblygu eu medrau digidol yn briodol. Er enghraifft, maent yn creu animeiddiadau syml yn seiliedig ar stori ac yn rheoli tegan rhaglenadwy i symud i leoliad penodol i ddangos taith o amgylch adeiladau yn yr ardal leol. Mae'r disgyblion ym Mlynyddoedd 3 i 6 yn defnyddio ystod o fedrau digidol yn hyderus. Maent yn defnyddio nifer o raglenni i ddiwallu anghenion amrywiol gynulleidfaoedd a dibenion. Maent yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng i fynegi barn ar ddiwedd thema gan ychwanegu troslais a cherddoriaeth i'w cyflwyniadau. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gadw'n ddiogel ar y we ac wedi creu rhaglen radio i ledaenu'r neges bwysig hon i'w cyfoedion. Maent yn defnyddio taenlenni yn bwrpasol ac yn ychwanegu fformiwlâu i gyfrifo cyfansymiau wrth drefnu taith i Ben y Fan ac i gyfleu canlyniadau arbrawf ar bontydd.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf yn datblygu'n effeithiol iawn. Er enghraifft, mae'r mwyafrif yn hyderus wrth berfformio yn unigol yn eisteddfod yr ysgol ac mae llawer yn chwarae offeryn cerdd neu'n cyfeilio yn ystod gwasanaethau ysgol gyfan. Mae eu

medrau artistig hefyd yn datblygu’n dda. Er enghraifft, maent yn efelychu gwaith artistiaid fel Kyffin Williams yn fedrus fel rhan o’u gwaith thematig.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron pob un o’r disgyblion yn mwynhau dod i’r ysgol. Maent yn foesgar a chwrtais tuag at ei gilydd ac ymwelwyr. Maent yn gwrando’n ofalus ar yr hyn y mae eu ffrindiau a’u hathrawon yn ei ddweud wrthynt ac yn ymateb i’w syniadau’n ystyriol. Maent yn ofalgar o’i gilydd, yn cymryd eu tro ac yn cynorthwyo’i gilydd yn dda wrth chwarae gemau a chymdeithasu yn ystod amser egwyl. Mae’r rhan fwyaf yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac yn symud o gwmpas yr ysgol yn dawel a phwyllog. Mae bron pob un yn datgan eu bod yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i droi os bydd angen cymorth arnynt, ac maent yn hyderus y bydd staff yn gwrando arnynt ac yn delio’n briodol ag unrhyw bryderon sydd ganddynt. Os bydd gan ddisgyblion ofid am les disgyblion arall, maent yn ei rhannu â staff er mwyn iddynt eu cysuro.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn canolbwyntio’n dda ar eu tasgau ac yn eu cwblhau’n amserol. Mae llawer yn dyfalbarhau’n dda â’u tasgau ac yn cydweithio’n gynhyrchiol yn unigol, mewn parau a grwpiau bach. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn ddysgwyr uchelgeisiol a hyderus ac yn cynllunio a chwblhau tasgau yn annibynnol.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn cymryd rhan weithredol wrth gynllunio’u themâu tymhorol. O ganlyniad, mae ganddynt berchnogaeth o’u gwaith ac maent yn arddangos lefel uchel o ddiddordeb ac ymgysylltiad ynddo. Mae llawer yn ymateb yn gadarnhaol i’r cyfleoedd a gânt i fyfyrio ar eu dysgu o oed cynnar. Mae’r rhan fwyaf yn ymateb yn dda i adborth gan staff ar safon eu gwaith ac yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn ei wella a datblygu eu medrau ymhellach. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn gwneud defnydd cynyddol effeithiol o weithdrefnau hunanasesu ac asesu cyfoedion ac maent yn aml yn awyddus i wneud newidiadau er mwyn gwella’u hymdrechion gwreiddiol. Mae hyn yn codi eu hunanhyder ac yn cefnogi eu cynnydd. O ganlyniad, erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, mae’r mwyafrif yn meddu ar ddealltwriaeth glir o’u cryfderau a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd cynhyrchiol o’r ystod eang o gyfleoedd a gânt i ddatblygu eu medrau arwain ar amrywiol bwyllgorau llais y disgybl. Wrth iddynt ymgymryd â’r rolau hyn, mae llawer yn esbonio’n hyderus y ffordd mae eu penderfyniadau wedi dylanwadu’n gadarnhaol ar fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, maent yn sôn am ymdrech aelodau’r pwyllgor eco i dderbyn cydnabyddiaeth genedlaethol am eu hymdrechion i hybu arferion cynaliadwy. Mae’r Llewod Lles yn enghraifft arall lle mae disgyblion yn siarad yn frwdfrydig iawn am eu gweithgareddau a’u cyfrifoldebau i gefnogi lles emosiynol eu cyfoedion. Maent yn falch iawn o’r ‘Bocsys Becso’ sydd bellach ym mhob dosbarth er mwyn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion rannu eu teimladau a’u pryderon gyda’r staff.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o amrywiaeth ddiwylliannol, er enghraifft trwy ddysgu am wahanol grefyddau. Maent yn deall rhai o’r materion moesegol sy’n wynebu’r byd cyfoes, fel y problemau sy’n cael eu hachosi i’r amgylchedd gan wastraff plastig. Maent yn falch o’u hymdrechion i

gefnogi elusennau cenedlaethol a lleol, fel Apêl Cemo yr ysbyty lleol ac ymgyrch Ambiwlans Awyr Cymru. O ganlyniad i fentrau fel hyn, mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth gadarn o'r angen i helpu pobl eraill yn eu cymuned leol a'r byd ehangach, ac yn datblygu eu gallu i fod yn ddinasyddion moesegol a chyfrifol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i aros yn ddiogel pan fyddant ar-lein; er enghraifft, maent yn gwybod na ddylen nhw rannu eu cyfrineiriau gydag eraill. Mae llawer yn deall pwysigrwydd gofalu am eu lles eu hunain ac eraill gan gynnwys pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a chyflawni ymarferion yn rheolaidd i gadw'n heini.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae staff yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio profiadau dysgu sy'n eang a diddorol i'r disgyblion ac sy'n addas ar gyfer eu hoed a'u gallu. Mae'r themâu yn aml yn seiliedig ar yr ardal leol a Chymru ac yn annog y disgyblion i werthfawrogi eu cymuned a deall natur ddiwylliannol, ieithyddol ac amrywiol Cymru. Mae staff yn cydweithio'n agos i benderfynu ar themâu ystyrlon. Maent yn cynnal 'diwrnodau datgelu' ar ddechrau pob thema i danio dychymyg a brwdfrydedd y disgyblion, a diwrnodau dathlu ar ddiwedd pob un. Mae'r gweithgareddau a gynllunnir yn seiliedig ar syniadau'r disgyblion, y rhieni ac aelodau o'r gymuned leol. Cyfoethogir y cwricwlwm ymhellach trwy wahodd unigolion o'r gymuned i rannu eu profiadau â'r disgyblion. Er enghraifft, ymwelodd aelod staff o fanc lleol i drafod materion ariannol gyda'r disgyblion ynghyd â ble mae arian yn dod a manteision cynilo.

Mae staff yn gwirio'r ddarpariaeth gwricwlaidd yn rheolaidd ac effeithiol, a lle bo angen, yn cynllunio gweithgareddau i lenwi unrhyw fylchau, neu i wella'r profiadau dysgu a gynigir i'r disgyblion. Er enghraifft, maent wedi cynyddu'r mewnbwn ar ddatblygu medrau digidol y disgyblion yn ddiweddar, wedi iddynt sylwi nad oedd y profiadau'n ddigon eang. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n drefnus ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau cyfredol disgyblion er mwyn sicrhau dilyniant wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Trwy gyd-gynllunio'n agos, mae staff yn sicrhau nad oes gormod o ailadrodd yn y profiadau a gynllunnir na'r addysgu, ym meysydd llythrennedd, rhifedd a TGCh.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd eang a phriodol i ddisgyblion gymhwyso'u medrau llythrennedd a TGCh ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn cymhwyso'u medrau llafar a digidol i gyflwyno ffilm fer ar Saith Rhyfeddod y Byd i'w cyfoedion. Er hynny, cyfyng yw'r cyfleoedd a ddarperir i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau rhifedd ar draws meysydd eraill y cwricwlwm.

Mae perthynas waith agos yn bodoli rhwng yr holl staff a'r disgyblion. Mae hyn yn creu awyrgylch cynhwysol ym mhob dosbarth. Yn gyffredinol, mae'r athrawon yn rheoli eu dosbarthiadau'n effeithiol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion. Mae ganddynt wybodaeth eang a chadarn o holl feysydd ac egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru ac maent yn adlewyrchu hynny yn eu haddysgu bob dydd.

Mae staff ategol yn gydwybodol iawn ac yn cefnogi athrawon yn effeithiol i ddatblygu medrau a lles y disgyblion. Mae'r holl staff yn adnabod anghenion eu disgyblion yn dda ac yn teilwra'r amcanion dysgu yn briodol er mwyn eu cefnogi a'u cymell i gyflawni'n dda yn y tasgau.

Mae mwyafrif y staff yn fodelau iaith da ac yn manteisio ar gyfleoedd penodol i gyflwyno geirfa newydd a phatrymau iaith i'r disgyblion. Maent yn defnyddio dulliau holi yn effeithiol ac yn annog y disgyblion i ymestyn eu hymatebion. Mae athrawon yn asesu disgyblion yn barhaus ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i fwydo'r cynlluniau dilynol i ddatblygu eu medrau ymhellach ym mhob maes. Mae hyn yn arbennig o effeithiol yn nosbarthiadau'r dysgu sylfaen. Mae pob un o'r athrawon yn darparu adborth gwerthfawr ar lafar i gynorthwyo'r disgyblion i wella'u gwaith. Mewn llawer o ddosbarthiadau, lle mae hynny'n briodol, mae athrawon hefyd yn darparu adborth ysgrifenedig effeithiol iddynt. Er hyn, nid yw'r arfer hon bob amser yn cynnig arweiniad sy'n ddigon clir i alluogi disgyblion wella'u gwaith ym mhob dosbarth.

Mae'r dosbarthiadau'n lleoedd ysgogol a difyr lle gall pob grŵp o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mwyaf a lleiaf abl, ddysgu'n gynhyrchiol. Mae cyflenwad defnyddiol o adnoddau ieithyddol ar y waliau yn gymorth iddynt, ac mae eu cyflawniadau a'u gwaith hwythau yn cael eu dathlu'n gyson. Mae adnoddau wedi eu lleoli'n drefnus o amgylch y dosbarthiadau sy'n annog annibyniaeth. Yn yr un modd, gwneir defnydd effeithiol o'r ardaloedd allanol i ddatblygu medrau a gwybodaeth y disgyblion ymhellach. Mae'r staff yn darparu llawer o brofiadau ymarferol, buddiol a diddorol iddynt ac yn darparu cyfleoedd cyfoethog a rhydd iddynt arbrofi â'r amrywiaeth eang o adnoddau. Trwy hyn, maent yn eu hannog yn barhaus i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol a chreadigol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae'r ysgol yn gymuned hynod ofalgar, lle mae staff a disgyblion yn arddangos lefel uchel o barch at ei gilydd. Mae staff yn adnabod anghenion y disgyblion a'u cefndiroedd yn dda iawn ac yn diwallu eu hanghenion yn hynod lwyddiannus. Maent yn rhoi blaenoriaeth uchel i les disgyblion ac yn sicrhau eu bod yn darparu amgylchedd cefnogol iddynt deimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol a gweithdrefnau sefydledig ac effeithiol i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff yn monitro cynnydd disgyblion yn llwyddiannus ac yn gweithio'n ddiwyd i gyflwyno'r trefniadau cenedlaethol newydd o ran cefnogi'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gweithdrefnau cynhwysfawr i adnabod unrhyw ddisgyblion sydd angen cymorth penodol, a threfn glir i gynllunio ymyraethau penodol ar eu cyfer. Maent yn gwerthuso effaith y darpariaethau hyn yn llwyddiannus yn seiliedig ar eu cynnydd a'u lles. O ganlyniad, mae bron pob un sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn magu hyder ac yn dangos brwdfrydedd o'r newydd tuag at ddysgu, yn ogystal â gwelliant nodedig mewn medrau cymdeithasol wrth weithio tuag at eu targedau personol. Mae'r staff ategol yn darparu cymorth o ansawdd da i ddisgyblion drwy gynnal rhaglenni i ddatblygu eu lles a'u medrau llythrennedd a rhifedd yn unol â'r angen. Mae'r ysgol yn cynnwys y disgyblion eu hunain, y rhieni ac asiantaethau allanol, lle bo'n briodol, i gynllunio'r camau nesaf iddynt. Gwnânt hyn yn hynod effeithiol. Maent yn olrhain cynnydd disgyblion yn fanwl mewn perthynas â'r targedau yn eu cynlluniau personol, a'u cynnydd o'u mannau cychwyn unigol.

Mae amgylchedd ysgogol yr ysgol a'r cyfleoedd cyfoethog a ddarperir i ddisgyblion fyfyrio a chyd-addoli yn hyrwyddo datblygiad moesol ac ysbrydol disgyblion yn llwyddiannus. Mae staff yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddarganfod

nodweddion gwahanol grefyddau ac i fyfyrio ar gwestiynau sylfaenol yn seiliedig ar eu credoau neu'u gwerthoedd eu hunain. Ceir ffocws cryf ar ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'u hawliau. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir a chadarn o degwch, cydraddoldeb a chynhwysiant yn eu bywydau bob dydd. Mae staff yn annog disgyblion i gydnabod a pharchu amrywiaeth, a phwysigrwydd gwerthoedd fel goddefgarwch a'r angen i ofalu am eraill.

Mae'r ddarpariaeth i gynorthwyo pob disgybl i gymryd rhan mewn penderfyniadau ar lefel ysgol gyfan yn dda. Trwy gyfrwng y cynghorau ysgol, lles ac eco, darperir cyfleoedd cyfoethog iddynt ddylanwadu ar waith a bywyd yr ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn darparu cyfleoedd pwysig i ddisgyblion ddysgu am waith dyngarol a chefnogi elusennau fel Ambiwlans Awyr Cymru, ymysg eraill.

Rhoddir ffocws penodol ar gefnogi lles disgyblion, gan gynnwys eu hanghenion emosiynol a'u hiechyd meddwl. Mae'r staff yn sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad effeithiol at ystod o raglenni priodol sy'n eu helpu i ymdrin â'u teimladau ac emosiynau. Techneg effeithiol sy'n cael ei defnyddio'n ddyddiol gan y disgyblion er mwyn rhannu eu teimladau a phryderon yw'r gofrestr lles ar-lein. Drwy hyn, mae'r athrawon yn ymateb i bryderon unrhyw ddisgybl mewn ffordd sensitif ar ddechrau'r diwrnod ysgol.

Nodwedd gref iawn o ddarpariaeth yr ysgol yw'r cyfleoedd estynedig a ddarperir i bob disgybl ymgymryd â gweithgareddau awyr agored gwerthfawr. Er enghraifft, yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un yn cael cyfle i fynd i feicio mynydd, merlota, pysgota, gwersylla gwyllt a chyfeiriannu yn lleol. Mae'r profiadau cyfoethog awyr agored hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar les bron pob disgybl. Er eu bod wedi'u sefydlu dros nifer o flynyddoedd, mae'r trefniant hwn wedi bod yn hynod effeithiol yn ddiweddar, er mwyn bodloni anghenion iechyd a lles disgyblion yn dilyn cyfnod y pandemig.

Mae gweithdrefnau'r ysgol i sicrhau presenoldeb cyson disgyblion yn gadarn. Mae'r staff yn cadw cofnodion priodol o achosion o absenoldeb ac yn cysylltu â rhieni yn amserol i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt ynglŷn ag absenoldeb eu plant. Gwneir defnydd effeithiol o wasanaethau lles yr awdurdod lleol i gefnogi hyn.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn arweinydd profiadol ac yn sicrhau bod gweithdrefnau strategol yr ysgol yn gadarn ac effeithiol. Mae ganddo weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddarparu addysg o'r ansawdd uchaf i blant a phobl ifanc yr ardal. Mae'n gwneud hyn mewn amgylchedd cyfoes a chyfeillgar gydag ymrwymiad llwyr staff proffesiynol, ymroddedig a gofalgar sy'n anelu'n barhaus at sicrhau'r safonau addysgol uchaf posibl. Mae'n cyfleu'r weledigaeth honno'n glir i'r staff, y rhieni, y disgyblion ac aelodau'r gymuned leol.

Mae gan y pennaeth a'r arweinwyr eraill ddisgwyliadau uchel o'u hunain, y staff a'r disgyblion. Maent yn arddangos gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at sicrhau bod yr ysgol yn hafan ddiogel a chartrefol sy'n rhoi bri ar les ac addysg disgyblion. Maent yn meithrin diwylliant diogelu cadarn, ac yn monitro lles a chynnydd disgyblion yn effeithiol. Mae arweinwyr yn rheoli perfformiad

y staff yn barhaus er mwyn eu canmol am eu llwyddiannau proffesiynol a'u hannog i wella unrhyw feysydd penodol y cytunir y mae angen eu gwella.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hunanwerthuso manwl, cynhwysfawr a chadarn, sydd wedi hen sefydlu. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys yr holl staff yn ogystal ag ystod o bartneriaid sy'n cynnwys llywodraethwyr, disgyblion, rhieni a swyddogion addysg yr awdurdod lleol. Maent yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol, yn rhoi darlun cywir o'r sefyllfa gyfredol ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at osod blaenoriaethau i'r cynllun gwella. Mae cynlluniau a gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer gwella hefyd yn gadarn, yn effeithiol, ac yn sicrhau gwelliannau yn y meysydd a nodir fel blaenoriaethau. Mae gweithdrefnau monitro manwl a rheolaidd yr ysgol i fesur cynnydd yn erbyn ei blaenoriaethau yn galluogi arweinwyr i addasu'r cymorth neu ddiwygio'r ffocws pe bai ei angen, i sicrhau'r gwelliant gorau ym mhob maes a nodir.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gweithgareddau dysgu proffesiynol y staff yn seiliedig ar flaenoriaethau cenedlaethol a lleol ac anghenion penodol yr unigolion. Maent yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar gynnal a gwella cynnydd a lles disgyblion. Mae'r ffocws diweddar yn cynnwys datblygu arweinwyr canol, gwella medrau digidol staff, cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, a dulliau dysgu effeithiol yn yr awyr agored, ymysg eraill. Mae arweinwyr yn monitro effaith dysgu proffesiynol ar effeithiolrwydd addysgu ac arweinyddiaeth, ac ar gynnydd a lles disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn sicrhau cydbwysedd synhwyrol o gymorth a her yn eu rôl fel 'cyfeillion beirniadol.' Mae sicrhau lles y pennaeth a'r staff yn flaenoriaeth gref iddynt. Maent yn cynnal trafodaethau rheolaidd gydag arweinwyr y gwahanol feysydd cwricwlaidd ac yn cynnal teithiau dysgu priodol i werthuso'r ddarpariaeth a safonau. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'i chryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Mae hyn yn eu galluogi i gyfrannu'n uniongyrchol at osod blaenoriaethau strategol ar gyfer yr ysgol ac i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn effeithiol. Maent yn rheoli adnoddau'r ysgol, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, yn ddarbodus gan sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n briodol i hybu'r dysgu. Maent yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae gan arweinwyr berthynas gynhyrchiol a pharchus â rhieni ac maent yn sicrhau bod ganddynt linellau cyfathrebu effeithiol er mwyn iddynt godi unrhyw faterion a all effeithio ar ddysgu a lles eu plant. O ganlyniad i sylwadau a godwyd gan rieni trwy gyfrwng holiadur blynyddol, penderfynwyd ystyried ehangu'r cyfryngau a ddefnyddir i anfon negeseuon atynt. Mae arweinwyr hefyd yn cynnal sesiynau defnyddiol i'w hysbysu am faterion pwysig fel y newidiadau i'r cwricwlwm ac ati. Mae'r rhieni'n gwerthfawrogi hyn yn fawr.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol/aelodau’r pwyllgor rheoli’ trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/07/2023